

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) Childcare Funding (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—
Sections 1 - 13 Adrannau 1 - 13
Long Title Teitl Hir

Janet Finch-Saunders

4A

As an amendment to amendment 4, line 3, after 'parents', insert 'for, or for a period equivalent to, 30 hours in each of 48 weeks in any year'.

Fel gwelliant i welliant 4, llinell 3, ar ôl 'gweithio', mewnosoder 'am gyfnod o 30 awr ym mhob un o'r 48 wythnos mewn unrhyw flwyddyn, neu am gyfnod sy'n cyfateb i 30 awr ym mhob un o'r 48 wythnos mewn unrhyw flwyddyn'.

Janet Finch-Saunders

4B

As an amendment to amendment 4, line 4, leave out 'must specify the amount' and insert 'may specify a different number of hours and weeks'.

Fel gwelliant i welliant 4, llinell 4, hepgorer 'Rhaid i reoliadau bennu faint', a mewnosoder 'Caiff rheoliadau bennu nifer wahanol o oriau ac wythnosau'.



Huw Irranca-Davies

4

Section 1, page 1, line 7, leave out 'may provide funding to any person for the purpose of securing the provision of childcare for qualifying children of working parents' and insert –

'must provide funding in respect of childcare for qualifying children of working parents.

- () Regulations must specify the amount of childcare to be secured by virtue of funding provided under subsection (1)'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 7, hepgorer is-adran (1) a mewnosoder –

'() Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid mewn cysylltiad â darparu gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio.

- () Rhaid i reoliadau bennu faint o ofal plant sydd i'w sicrhau yn rhinwedd y cyllid a ddarperir o dan is-adran (1)'.

Siân Gwenllian

6

Section 1, page 1, line 8, after 'parents', insert –

', or

- () parents who are undertaking such education or training (with the purpose of securing employment) as may be prescribed'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 8, ar ôl 'gweithio', mewnosoder –

', neu

- () rhieni sy'n ymgymryd ag unrhyw addysg neu hyfforddiant (gyda'r diben o sicrhau cyflogaeth) a ragnodir'.

Janet Finch-Saunders

11

Section 1, page 1, line 8, after 'parents', insert –

', or

- () parents who are undertaking at least 16 hours a week, for at least 10 weeks during an academic year of such education or training (with the purpose of securing employment), as may be prescribed'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 8, ar ôl 'gweithio', mewnosoder –

', neu

- () rhieni sy'n ymgymryd ag o leiaf 16 awr yr wythnos, am o leiaf 10 wythnos yn ystod blwyddyn academiaidd o'r cyfryw addysg neu hyfforddiant (gyda'r diben o sicrhau cyflogaeth), a ragnodir'.

Siân Gwenllian

7

Section 1, page 1, after line 8, insert –

- '() The Welsh Ministers must ensure that any provision secured under subsection (1) has regard to the importance of the Welsh language.'.



Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth a sicrheir o dan is-adran (1) yn rhoi sylw i bwysigrwydd y Gymraeg.'

Janet Finch-Saunders

12

Section 1, page 1, after line 8, insert –

- '() The Welsh Ministers must ensure that any provisions secured under subsection (1) has regard to the need to minimise any impact of transporting children between different providers.'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth a sicrheir o dan is-adran (1) yn rhoi sylw i'r angen i leihau unrhyw effaith cludo plant rhwng darparwyr gwahanol.'

Janet Finch-Saunders

13

Section 1, page 1, after line 8, insert –

- '() No charge (including additional fees for food, other consumables and additional activities) is to be made to a parent for any provision secured in accordance with subsection (1) for any qualifying child who would be eligible for free school meals if they were of compulsory school age.'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '() Nid oes ffioedd (gan gynnwys ffioedd ychwanegol am fwyd, nwyddau bwytadwy eraill a gweithgareddau ychwanegol) i gael eu codi ar riant am unrhyw ddarpariaeth a sicrheir yn unol ag is-adran (1) i unrhyw blentyn cymhwysol a fyddai'n gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol pe byddent o'r oedran ysgol gorfodol.'

Siân Gwenllian

8

Section 1, page 1, line 9, leave out 'of working parents'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 9, hepgorer 'rhieni sy'n gweithio'.

Janet Finch-Saunders

14

Section 1, page 1, line 9, after 'child' at the second place where it appears, insert 'who has attained the age of three but is'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 9, ar ôl 'blentyn', mewnosoder 'sydd wedi cyrraedd tair blwydd oed ond sydd'.



Janet Finch-Saunders 15

Section 1, page 1, line 11, after 'range)', insert 'which must be'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 12, hepgorer 'a bennir' a mewnosoder 'y mae'n rhaid iddo fod wedi'i bennu'.

Siân Gwenllian 9

Section 1, page 1, line 21, after 'partner', insert 'and the maximum level of earnings of a parent or partner'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 23, ar ôl 'bartner', mewnosoder 'a'r lefel uchaf o enillion gan riant neu bartner'.

Janet Finch-Saunders 16

Section 1, page 1, after line 24, insert—

'() If regulations are made under subsection (2)(d) they must include information about the evidence required to satisfy any conditions which are to be met by a person making a declaration.'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'() Os gwneir rheoliadau o dan is-adran (2)(d) rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n ofynnol i fodloni unrhyw amodau sydd i'w bodloni gan berson sy'n gwneud datganiad.'

Janet Finch-Saunders 17

Section 1, page 1, line 30, after 'work', insert ', including but not limited to temporary exemption periods'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 31, ar ôl 'dâl', mewnosoder ', gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfnodau esemptio dros dro'.

Janet Finch-Saunders 18

Section 1, page 1, after line 30, insert—

'() The Welsh Ministers may by regulations make provision for arrangements under subsection (1), to apply to children other than those who have attained the age of three in accordance with subsection (2).'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

'() Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i'r trefniadau o dan is-adran (1) fod yn gymwys i blant ar wahân i'r rhai hynny sydd wedi cyrraedd tair blwydd oed yn unol ag is-adran (2).'



Janet Finch-Saunders

19

Section 1, page 1, line 31, after 'section', insert –

' –

- () "academic year" means a period of 12 months ending with 31 August'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 32, ar ôl 'hon', mewnosoder –

' –

- () ystyr "blwyddyn academaidd" yw cyfnod o 12 mis yn dod i ben ar 31 Awst'.

Janet Finch-Saunders

20

Section 1, page 1, line 31, after 'section', insert –

' –

- () "childcare" means –

- (i) care or other supervised activity for a child in respect of which the provider is required to be registered under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 or under Part 3 of the Childcare Act 2006;
- (ii) such other care or supervised activity for a child as may be prescribed'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 32, ar ôl 'hon', mewnosoder –

' –

- () ystyr "gofal plant" yw –

- (i) gofal neu weithgaredd arall o dan oruchwyliaethar gyfer plentyn y mae'n ofynnol i'r darparwr gael ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 neu Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006 mewn perthynas ag ef;
- (ii) unrhyw ofal neu weithgaredd arall o dan oruchwyliaeth ar gyfer plentyn a ragnodir'.

Janet Finch-Saunders

21

Section 1, page 1, line 31, after 'section', insert –

' –

- () "eligible for free school meals" means eligible for school lunches under section 512ZB Education Act 1996'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 32, ar ôl 'hon', mewnosoder –

' –

- () ystyr "yn gymwys i gael prydau am ddim yn yr ysgol" yw cymwys i gael ciniawau ysgol o dan adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996'.



Siân Gwenllian **10**

Gyda chefnogaeth / Supported by: Janet Finch-Saunders

Section 1, page 2, after line 1, insert –

‘() “prescribed” means prescribed in regulations made by the Welsh Ministers.’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘() ystyr “a ragnodir” yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.’.

Huw Irranca-Davies **1**

Section 1, page 2, after line 1, insert –

‘() References in this section to regulations are to regulations made by the Welsh Ministers.’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘() Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at reoliadau yn gyfeiriadau at reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.’.

Janet Finch-Saunders **22**

Section 1, page 2, after line 1, insert –

‘() Regulations made under this section must define what is meant by “care” for the purposes of subsection (7)(b).’.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon ddiffinio ystyr “gofal” at ddibenion is-adran (7)(b).’.

Janet Finch-Saunders **23**

Page 2, after line 1, insert a new section –

[] Procedure for first regulations under section 1

- (1) Before making the first regulations (whether alone or with other provision) under section 1, the Welsh Ministers must carry out the following steps.
- (2) The Welsh Ministers must consult –
 - (a) such persons as appear to them likely to be affected by the regulations,
 - (b) such organisations as appear to them to represent the interests of persons likely to be affected by the regulations, and
 - (c) such other persons as they consider appropriate, on the proposed draft regulations.



- (3) The Welsh Ministers must –
 - (a) allow those persons a period of at least 12 weeks to submit comments on the proposed draft regulations,
 - (b) consider any comments submitted within that period, and
 - (c) publish a summary of those comments.
- (4) The Welsh Ministers must lay a draft of the regulations before the National Assembly for Wales.
- (5) Draft regulations laid under subsection (4) –
 - (a) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of any differences between the draft regulations consulted on under subsection (2) and the draft regulations laid under subsection (4), and
 - (b) may not be approved by a resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 11(2) until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the draft regulations are laid.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder adran newydd –

[1] Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau cyntaf o dan adran 1

- (1) Cyn gwneud y rheoliadau cyntaf (pa un ai ar eu pen eu hunain neu gyda darpariaeth arall) o dan adran 1, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau a ganlyn.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y rheoliadau drafft arfaethedig â’r canlynol –
 - (a) unrhyw bersonau y mae’n ymddangos iddynt fod y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt,
 - (b) unrhyw sefydliadau y mae’n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae’r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i’r personau hynny i gyflwyno sylwadau ar y rheoliadau drafft arfaethedig,
 - (b) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir o fewn y cyfnod hwnnw, ac
 - (c) cyhoeddi crynodeb o’r sylwadau hynny.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o’r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (5) O ran y rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4) –
 - (a) rhaid iddynt fynd gyda datganiad gan Weinidogion Cymru yn rhoi manylion unrhyw wahaniaethau rhwng y rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt o dan is-adran (2) a’r rheoliadau drafft a osodir o dan is-adran (4), a
 - (b) ni chaniateir iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 11(2) tan ar ôl i’r cyfnod o 60 niwrnod, yn dechrau â’r diwrnod y gosodir y rheoliadau drafft, ddod i ben.’.



Janet Finch-Saunders

24

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- '() Regulations made under this section must set out the categories of providers (which may include relatives of qualifying children) who are able to provide childcare for the purposes of section 1.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon nodi'r categorïau o ddarparwyr (a gaiff gynnwys perthnasau plant cymhwysol) sy'n gallu darparu gofal plant at ddibenion adran 1.'

Janet Finch-Saunders

25

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- '() Regulations made under this section must set out the categories of providers (which may include schools) who are able to provide childcare for the purposes of section 1.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon nodi'r categorïau o ddarparwyr (a gaiff gynnwys ysgolion) sy'n gallu darparu gofal plant at ddibenion adran 1.'

Janet Finch-Saunders

26

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- '() Regulations made under this section must make provision about which person or body will be responsible for securing the provision of childcare in accordance with section 1.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch pa berson neu ba gorff a fydd yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth o ofal plant yn unol ag adran 1.'

Janet Finch-Saunders

27

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- '() Regulations made under this section must make provision about the terms of any arrangements between any person securing the provision of childcare in accordance with section 1 and providers of childcare.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch telerau unrhyw drefniant rhwng unrhyw berson sy'n sicrhau'r ddarpariaeth o ofal plant yn unol ag adran 1 a darparwyr gofal plant.'



Janet Finch-Saunders 28

Section 2, page 2, after line 8, insert –

‘() Regulations made under this section must make provision about any conditions a provider must meet in order to provide childcare for the purposes of section 1.’

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

‘() Rhaid i reoliadau a wneir o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch unrhyw amodau y mae’n rhaid i ddarparwr eu bodloni er mwyn darparu gofal plant at ddibenion adran 1.’

Janet Finch-Saunders 29

Section 6, page 3, line 33, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 6, tudalen 3, llinell 33, hepgorer ‘Caiff y’ a mewnosoder ‘Rhaid i’r’.

Janet Finch-Saunders 30

Page 4, after line 2, insert a new section –

[] Duty to carry out a review

- (1) The Welsh Ministers must review the operation of any childcare funding arrangements established in accordance with section 1.
- (2) The first review must take place twelve months after the commencement of any childcare funding arrangements established in accordance with section 1; and each subsequent review must take place as soon as practicable after the end of the period of three years beginning with the date on which the previous review took place.
- (3) A review under this section must in particular consider whether the arrangements have implemented the objectives of the Act efficiently and effectively.
- (4) In conducting a review under this section, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (5) The Welsh Ministers must –
 - (a) publish the results of a review under this section, and
 - (b) lay a copy of the review before the National Assembly for Wales.’

Tudalen 4, ar ôl llinell 1, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i gynnal adolygiad

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad unrhyw drefniadau cyllido gofal plant a sefydlir yn unol ag adran 1.
- (2) Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf ddeuddeg mis ar ôl dechrau unrhyw drefniadau cyllido gofal plant a sefydlir yn unol ag adran 1; a rhaid cynnal pob adolygiad dilynol cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol.

- (3) Rhaid i adolygiad a gynhelir o dan yr adran hon ystyried yn benodol pa un a yw'r trefniadau wedi cyflawni amcanion y Ddeddf mewn modd effeithlon ac effeithiol ai peidio.
- (4) Wrth gynnal adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent o'r farn eu bod yn briodol.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) cyhoeddi canlyniadau adolygiad o dan yr adran hon, a
 - (b) gosod copi o'r adolygiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'

Janet Finch-Saunders

2A

As an amendment to amendment 2, line 3, leave out 'five', and replace with 'three'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 3, hepgorer 'bum mlynedd', a mewnosoder 'dair blynedd'.

Janet Finch-Saunders

2B

As an amendment to amendment 2, line 4, leave out 'prepare and publish a', and replace with 'commission, publish and lay before the National Assembly for Wales an independent'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 4, hepgorer 'lunio a chyhoeddi adroddiad', a mewnosoder 'gomisiynu, cyhoeddi a gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad annibynnol'.

Janet Finch-Saunders

2C

As an amendment to amendment 2, after line 5, insert –

- () The report must contain, in particular, an assessment of –
 - (a) the impact of transporting children between different childcare providers;
 - (b) the impact of childcare providers charging additional fees for food, other consumables and additional activities on the take-up of any arrangements;
 - (c) whether there is sufficient capacity within the early years workforce to meet the demand of any arrangements;
 - (d) whether there has been any impact on the frequency of family members caring for qualifying children;
 - (e) the effect of the Act and any arrangements made under it on increasing levels of employment of working parents;
 - (f) the operation of the administrative scheme.

Fel gwelliant i welliant 2, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- () Rhaid i'r adroddiad gynnwys, yn benodol, asesiad o –
 - (a) effaith cludo plant rhwng gwahanol ddarparwyr gofal plant;
 - (b) effaith darparwyr gofal plant yn codi ffioedd ychwanegol am fwyd, nwyddau bwytadwy eraill a gweithgareddau ychwanegol ar y niferoedd sy'n gwneud defnydd o'r trefniadau;



- (c) a oes digon o gapasiti ymysg gweithlu'r blynyddoedd cynnar i fodloni'r galw am unrhyw drefniadau;
- (d) a fu unrhyw effaith ar ba mor aml y mae aelodau'r teulu wedi bod yn gofalu am blant cymhwysol;
- (e) effaith y Ddeddf ac unrhyw drefniadau a wnaed oddi tani ar gynyddu lefelau cyflogaeth ymysg rhieni sy'n gweithio;
- (f) gweithredu'r cynllun gweinyddu.

Janet Finch-Saunders

2D

As an amendment to amendment 2, line 6, leave out 'five' at the first place where it appears, and replace with 'three'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 6, hepgorer 'bum mlynedd' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, a mewnosoder 'dair blynedd'.

Janet Finch-Saunders

2E

As an amendment to amendment 2, line 6, leave out 'five' at the second place where it appears, and replace with 'three'.

Fel gwelliant i welliant 2, llinell 6, hepgorer, 'bum mlynedd' yn yr ail le y mae'n ymddangos, a mewnosoder 'dair blynedd'.

Huw Irranca-Davies

2

Page 4, after line 9, insert a new section –

'Duty to report on effect of Act

[] Duty to prepare and publish report on the effect of this Act

- (1) As soon as practicable after the end of the five year period, the Welsh Ministers must prepare and publish a report on the effect of this Act, and on the operation of any arrangements made for the purposes of section 1.
- (2) The five year period, for the purposes of this section, is the period of five years beginning with the day on which section 1 comes into force.'

Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Dyletswydd i adrodd ar effaith y Ddeddf

[] Dyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon

- (1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o bum mlynedd, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon, ac ar weithredu unrhyw drefniadau a wneir at ddibenion adran 1.
- (2) Y cyfnod o bum mlynedd, at ddibenion yr adran hon, yw'r cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 1 i rym.'



***Janet Finch-Saunders**

31

Page 4, after line 9, insert a new section –

'Duty to promote awareness

[] Duty to promote awareness of the scheme

(1) The Welsh Ministers must –

- (a) promote awareness of the arrangements made under the Act for the provision of childcare;
- (b) where any eligibility requirements in accordance with section 1 of the Act are not met by a parent, promote awareness of other childcare related support in their area.'

Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Dyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth

[] Dyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cynllun

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru –

- (a) hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau a wneir o dan y Ddeddf ar gyfer darparu gofal plant;
- (b) pan nad yw rhiant yn cyflawni unrhyw un neu ragor o'r gofynion cymhwystra yn unol ag adran 1 o'r Ddeddf, hyrwyddo ymwybyddiaeth o gymorth arall sy'n ymwneud â gofal plant yn eu hardal.'

Janet Finch-Saunders

32

Page 4, after line 9, insert a new section –

'Duty to publish information

[] Duty to publish information relating to hourly rates of payment

- (1) The Welsh Ministers must publish on an annual basis the hourly rate paid to providers of childcare under section 1.
- (2) In the event that different hourly rates are payable to providers of childcare under section 1, the Welsh Ministers must set out the different rates paid and the reasons for any difference.
- (3) The first publication under subsection (1) must take place twelve months after the commencement of any childcare funding arrangements established in accordance with section 1; and each subsequent publication must take place as soon as practicable after the end of the twelve month period beginning with the date of the previous report.'



Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth

[] Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â chyfraddau talu fesul awr

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi yn flynyddol y cyfraddau fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant o dan adran 1.
- (2) Os bydd cyfraddau fesul awr gwahanol yn daladwy i ddarparwyr gofal plant o dan adran 1, rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r cyfraddau gwahanol a delir a'r rhesymau dros unrhyw wahaniaeth.
- (3) Rhaid i'r cyhoeddiad cyntaf o dan is-adran (1) ddigwydd ddeuddeg mis ar ôl dechrau unrhyw drefniadau cyllido gofal plant a sefydlir yn unol ag adran 1, a rhaid i bob cyhoeddiad dilynol ddigwydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau â dyddiad yr adroddiad blaenorol.'

Janet Finch-Saunders

33

Page 4, after line 9, insert a new section –

[] Duty to publish information relating to additional charges

- (1) The Welsh Ministers must publish on an annual basis details of any additional fees charged to parents by providers of childcare in connection with arrangements for childcare under section 1.
- (2) The first publication under subsection (1) must take place twelve months after the commencement of any childcare funding arrangements established in accordance with section 1; and each subsequent publication must take place as soon as practicable after the end of the twelve month period beginning with the date of the previous report.'

Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â ffioedd ychwanegol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi yn flynyddol fanylion unrhyw ffioedd ychwanegol a godir ar rieni gan ddarparwyr gofal plant mewn cysylltiad â threfniadau ar gyfer gofal plant o dan adran 1.
- (2) Rhaid i'r cyhoeddiad cyntaf o dan is-adran (1) ddigwydd ddeuddeg mis ar ôl dechrau unrhyw drefniadau cyllido gofal plant a sefydlir yn unol ag adran 1; a rhaid i bob cyhoeddiad dilynol ddigwydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau â dyddiad yr adroddiad blaenorol.'



Janet Finch-Saunders

34

Page 4, after line 9, insert a new section –

'Workforce planning

[] Workforce planning

- (1) In order to ensure that sufficient and appropriate childcare is available for qualifying children of working parents, the Welsh Ministers must undertake workforce planning of the early years sector (including planning the recruitment, retention, education and training of persons).’.

Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Cynllunio'r gweithlu

[] Cynllunio'r gweithlu

- (1) Er mwyn sicrhau bod gofal plant digonol a phriodol ar gael ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal gwaith cynllunio'r gweithlu ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar (gan gynnwys cynllunio ar gyfer recriwtio, cadw, addysgu a hyfforddi personau).’.

Janet Finch-Saunders

35

Page 4, after line 9, insert a new section –

'Sunset provision

[] Duration of Act

- (1) This Act is repealed with effect from 1st September 2023, unless regulations providing otherwise are made under subsection (2).
- (2) Regulations may, after any review has been laid before the Assembly under section (*section to be inserted by amendment 30*) but before 1st September 2023, provide that this Act is not repealed, despite subsection (1).
- (3) Regulations may make such provision (including provision modifying any enactment) as may be necessary or expedient in consequence of the repeal, by virtue of subsection (1), of this Act.’.

Tudalen 4, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

'Darpariaeth fachlud

[] Hyd y Ddeddf

- (1) Diddymir y Ddeddf hon gydag effaith o 1 Medi 2023, oni bai y gwneir rheoliadau yn darparu fel arall o dan is-adran (2).



- (2) Caiff rheoliadau, ar ôl gosod unrhyw adolygiad gerbron y Cynulliad o dan adran (*yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 30*) ond cyn 1 Medi 2023, ddarparu nad yw'r Ddeddf hon i'w diddymu, er gwaethaf is-adran (1).
- (3) Caiff rheoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth (gan gynnwys darpariaeth sy'n addasu unrhyw ddeddfiad) sy'n angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i ddiddymu, yn rhinwedd is-adran (1), y Ddeddf hon.'

Huw Irranca-Davies

3

Section 10, page 4, line 21, after 'Regulations', insert 'made by the Welsh Ministers'.

Adran 10, tudalen 4, llinell 21, ar ôl 'rheoliadau', mewnosoder 'a wneir gan Weinidogion Cymru'.

Janet Finch-Saunders

36

Section 12, page 5, after line 6, insert—

- '() A statutory instrument containing an order under subsection (2) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.'

Adran 12, tudalen 5, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

- '() Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan is-adran (2) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.'

Siân Gwenllian

5

Long title, page 1, line 2, after 'parents', insert 'and parents who are undertaking education or training with the purpose of securing employment'.

Teitl hir, tudalen 1, llinell 2, ar ôl 'gweithio', mewnosoder 'a rhieni sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant gyda'r diben o sicrhau cyflogaeth'.

